Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Seicolegwyr addysg yng Nghymru

# Seicolegwyr addysg yng Nghymru

**Cynulleidfa**
Gweithwyr addysg proffesiynol a rhieni/gofalwyr.

**Trosolwg**
Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth i weithwyr addysg proffesiynol a rhieni/gofalwyr ar rôl seicolegwyr addysg a'u cyfraniad i addysg yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd**
Dylai gweithwyr addysg broffesiynol a rhieni/gofalwyr ystyried y cyngor hwn mewn perthynas â'r gefnogaeth ddisgwyliedig y gall plant a phobl ifanc dderbyn drwy seicolegwyr addysg.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: Additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn dysgu.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron Rhagfyr 2016
WG30419 ISBN digidol 978 1 4734 8203 6

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | **2** |
| Diben y ddogfen hon | 2 |
| Trosolwg | 2 |
| Â phwy mae seicolegwyr addysg yn gweithio? | 3 |
| Sut mae seicolegwyr addysg yn gweithio? | 3 |
| Pa fath o wasanaethau all seicolegwyr addysg eu cynnig? | 3 |
| Pryd mae seicolegwyr addysg yn dechrau gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc? | 4 |
| **2. Y blynyddoedd cynnar (0–5 oed)** | **5** |
| Pryd ddylai'r seicolegydd addysg ddechrau gweithio gyda phlant unigol? | 5 |
| Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud o fewn ystod oedran y blynyddoedd cynnar? | 5 |
| Y blynyddoedd cynnar – gwaith achos unigol | 6 |
| Y blynyddoedd cynnar – gwaith achos grŵp | 6 |
| Y blynyddoedd cynnar – gwaith achos systemau ehangach | 7 |
| **3. Oedran cynradd (5–11 oed)** | **8** |
| Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn yr ystod oedran cynradd? | 8 |
| Oedran cynradd – gwaith achos unigol | 8 |
| Oedran cynradd – gwaith achos grŵp | 9 |
| Oedran cynradd – gwaith achos systemau ehangach | 10 |
| **4. Oedran uwchradd (11–18 oed)** | **11** |
| Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn yr ystod oedran uwchradd? | 11 |
| Oedran uwchradd – gwaith achos unigol | 12 |
| Oedran uwchradd – gwaith grŵp | 13 |
| Oedran uwchradd – gwaith achos systemau ehangach | 14 |
| **5. Ystod oedran ôl-16** | **15** |
| Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn yr ystod oedran ôl-16? | 15 |
| Ôl-16 – gwaith achos unigol | 16 |
| Ôl-16 – gwaith achos grŵp | 17 |
| Ôl-16 – gwaith achos systemau ehangach | 18 |
| **6. Awdurdod lleol a'r gymuned** | **19** |
| Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn yr ALl a'r gymuned? | 19 |
| Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn y gymuned? | 20 |
| **Geirfa** | **22** |

# 1. Cyflwyniad



## Diben y ddogfen hon

Diben y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol am rôl **seicolegwyr addysg** a'u cyfraniad i addysg yng Nghymru. Ysgrifennwyd y ddogfen ar y cyd gan **Gymdeithas y Seicolegwyr Addysg** a **Llywodraeth Cymru**. Mae esboniad o'r termau a'r byrfoddau yn y rhestr eirfa.

Mae'r adran gyntaf yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i waith seicolegwyr addysg. Mae'r adrannau dilynol yn cynnwys enghreifftiau o waith seicolegwyr addysg gyda grwpiau oedran gwahanol. Mae enwau'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos yn anhysbys am resymau cyfrinachedd.

## Trosolwg

Mae seicolegwyr addysg yn gweithio gyda **phlant a phobl ifanc** i helpu gyda'u datblygiad, lles, gwydnwch, dysgu a chyflawniad. Mae eu dull o weithio yn **canolbwyntio ar y person** neu'n **berson-ganolog**, gan weithio gydag eraill i sicrhau'r canlyniadau gorau posib i blant a phobl ifanc. Canolbwynt gwaith seicolegydd addysg yw cefnogi a meithrin sgiliau eraill er mwyn nodi anghenion a hyrwyddo dulliau cynhwysol a allai helpu.

Yma yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o seicolegwyr addysg yn cael eu cyflogi gan **awdurdodau lleol (ALlau)** er bod rhai'n gweithio mewn practis preifat. Mae **gwasanaeth seicoleg addysg** ymhob awdurdod lleol, er bod darpariaethau gwasanaeth yn amrywio er mwyn diwallu anghenion lleol. Fel arfer, mae angen caniatâd **rhiant/gofalwr** cyn i seicolegydd addysg ddechrau gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc. Weithiau, mae pobl ifanc yn gallu rhoi caniatâd eu hunain, yn dibynnnu ar eu hoedran a lefel eu dealltwriaeth.

Mae gan seicolegwyr addysg y canlynol:

- cymwysterau graddedig ac ôl-raddedig arbenigol mewn cymhwyso seicoleg ym myd addysg
- gwybodaeth am systemau addysg ac arferion cyfredol Cymru
- dealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad plant ac **anghenion addysgol arbennig (AAA)**
- profiad sylweddol o gefnogi plant a phobl ifanc
- profiad o gynnal gwaith ymchwil am blant a phobl ifanc.

Mae seicolegwyr addysg yn derbyn:

- **datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)** er mwyn sicrhau eu bod yn parhau ar flaen y gad wrth eu gwaith
- goruchwyliaeth broffesiynol barhaus.

Mae'r **Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)** yn rheoleiddio pob seicolegydd addysg er mwyn sicrhau eu bod nhw'n dilyn y safonau proffesiynol gorau.

## Â phwy mae seicolegwyr addysg yn gweithio?

Plant a phobl ifanc sydd ag amrywiaeth eang o anghenion o ran:

- dysgu
- iaith a chyfathrebu
- nam ar y synhwyrau a namau corfforol
- datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- llesiant
- ymddygiad
- materion iechyd meddwl.

Hefyd, mae seicolegwyr addysg yn gweithio gyda grwpiau penodol o blant a phobl ifanc, fel rhai sydd dan ofal ALlau, rhai â Saesneg fel iaith ychwanegol a rhai sy'n cael cymorth gan **dimau troseddau ieuenctid**.

## Sut mae seicolegwyr addysg yn gweithio?

Mae seicolegwyr addysg yn gweithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a lleoliadau lle mae pryderon am blant a phobl ifanc. Maen nhw'n defnyddio pob math o ddulliau gydag unigolion, grwpiau, ysgolion a systemau ehangach fel ALlau a'r gymuned. Mae gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr, teuluoedd ac eraill yn bwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw ddull sy'n cael ei fabwysiadu yn un **cyfannol**. Mae seicolegwyr addysg yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn ymroi i wrando ar lais plant a phobl ifanc a'i hyrwyddo. Mae seicolegwyr addysg yn hyrwyddo dulliau cynhwysol o ddysgu, addysgu, rhianta a meithrin plant a phobl ifanc er mwyn cefnogi eu datblygiad.

## Pa fath o wasanaethau all seicolegwyr addysg eu cynnig?

Mae seicolegwyr addysg yn gweithio gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau.

Mae seicolegwyr addysg yn defnyddio eu craffter a'u dealltwriaeth seicolegol er mwyn darparu:

### Ymgynghori, cyngor ac asesiad arbenigol

- arsylwi ar blant a phobl ifanc
- defnyddio amrywiaeth eang o dechnegau **asesu** er mwyn gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc i asesu eu cryfderau, eu hanawsterau a'u safbwyntiau
- awgrymu rhaglenni cymorth ac ymyrryd fel bo'n briodol
- trafodaethau sy'n anelu at ddatblygu atebion sy'n mynd i'r afael â phryderon
- cyflawni rôl hanfodol yn ymwneud â phrosesau statudol AAA, gan ystyried *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2004)
- cadeirio a/neu gymryd rhan mewn cyfarfodydd a fforymau **amlasiantaeth**, yn enwedig rhai'n ymwneud â phlant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf cymhleth.

## Darparu ymyriadau seicolegol

- ymyriadau seicolegol gydag unigolion neu grwpiau o blant a phobl ifanc er mwyn cefnogi newidiadau

## Darparu cymorth i rieni/gofalwyr

- dulliau gwahanol, fel gweithdai rhieni, rhaglenni cymorth i rieni, sesiynau 'galw heibio' i rieni, ymgynghoriadau dros y ffôn a chyfarfodydd

## Darparu datblygiad a hyfforddiant proffesiynol

- dylunio a darparu hyfforddiant ar bob math o bynciau i athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill

## Cefnogi cymunedau pan fo digwyddiadau tyngedfennol a thrist yn digwydd


- darparu cymorth a fydd yn helpu pawb sydd wedi'u heffeithio pan fo **digwyddiad trist neu dyngedfennol** yn digwydd, er enghraifft, marwolaeth sydyn ac annisgwyl dysgwr neu aelod staff

## Cynnal ymchwil, gwerthuso a datblygu polisi ac ymarfer

- cynnal ymchwil sy'n helpu i ddatblygu a llywio ymarfer addysgol ac yn arwain neu'n cyfrannu at ddatblygiad polisi ALl ac ymarfer sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.

# Pryd mae seicolegwyr addysg yn dechrau gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc?

Mae ***Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*** yn argymell y dylid defnyddio **ymateb graddedig** i ddiwallu AAA plant a phobl ifanc. Y disgwyliad yw y bydd anghenion AAA y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cael eu diwallu trwy ymarfer priodol mewn lleoliadau addysg prif ffrwd. Cydnabyddir y bydd gan rai plant a phobl ifanc lefelau uwch o angen a fydd yn gofyn am wasanaethau arbenigol. Mae seicolegwyr addysg yn rhan o'r ymateb graddedig hwnnw ac, yn aml, byddant yn dechrau gweithredu pan fydd rhieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol ac eraill yn gofyn iddynt am gyngor.



# 2. Y blynyddoedd cynnar (0–5 oed)



## Pryd ddylai'r seicolegydd addysg ddechrau gweithio gyda phlant unigol?

Efallai y bydd seicolegydd addysg yn dechrau gweithredu yn dilyn ceisiadau gan amryw o wahanol ffynonellau, e.e. paediatregwyr, meddygon teulu, ymwelwyr iechyd, staff cyfleuster cyn-ysgol/meithrinfa/ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill, pan fo datblygiad, anabledd neu anghenion meddygol plentyn yn awgrymu ei bod hi'n debygol bod ganddo anghenion addysgol arbennig, neu efallai bod ganddo'r anghenion hynny. Dylai unrhyw gais am gymorth gan seicolegydd addysg fod wedi'i drafod gyda rhiant/gofalwr y plentyn ymlaen llaw.

Gall seicolegwyr addysg weithio mewn pob math o wahanol leoliadau, gan gynnwys:

- cartref y plentyn
- lleoliadau blynyddoedd cynnar (a gynhelir ac nas cynhelir) e.e. meithrinfeydd mewn ysgolion, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd preifat, ysgolion, canolfannau plant, clinigau
- lleoliadau **Dechrau'n Deg**.

## Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud o fewn ystod oedran y blynyddoedd cynnar?

### Gwaith unigol

- Asesu cryfderau a gwendidau i gynllunio rhaglenni ymyrraeth.
- Ymyriadau megis therapïau chwarae.
- Cefnogi'r pontio o'r cartref i leoliadau cyn-ysgol.
- Cydweithredu â gweithwyr proffesiynol eraill y blynyddoedd cynnar.
- Cefnogi'r pontio o'r cartref i leoliad cyn-ysgol i ysgol.

### Gwaith grŵp

- Cefnogi rhieni/gofalwyr a darparu gwybodaeth am amrywiaeth eang o raglenni rhianta.
- Ymgynghoriad grŵp hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar.
- Gweithio gyda grwpiau o blant gan ddefnyddio ymyriadau sy'n addas i blant ifanc.

### Systemau ehangach

- Goruchwylio a rheoli timau eraill.
- Cyfrannu at ddatblygu polisïau blynyddoedd cynnar.

# Y blynyddoedd cynnar – gwaith achos unigol

## Cefndir

Mae Megan yn bedair oed. Mae hi wedi bod yn mynychu ei chylch chwarae lleol ers chwe mis. Nododd staff y cylch chwarae fod Megan yn ei chael hi'n anodd ymgartrefu. Yn benodol, doedd hi ddim yn siarad ag unrhyw un (plentyn neu oedolyn) yn ystod ei hamser yn y cylch chwarae. Fodd bynnag, gan fod Megan yn blentyn "siaradus a bywiog" gartref, doedd hi ddim yn ymddangos bod ganddi unrhyw anawsterau penodol gyda'i datblygiad lleferydd ac iaith. Roedd ei rhieni a staff y cylch chwarae wedi rhoi cynnig ar bopeth, ond doedden nhw ddim yn gwybod beth i'w wneud nesaf.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Doedd Megan ddim wedi dweud gair yn y cylch chwarae ac roedd hi'n dangos arwyddion **mudandod dethol**. Cefnogodd y seicolegydd addysg y rhai oedd yn gweithio gyda Megan, a Megan ei hun, i geisio pontio'r bwlch yn raddol rhwng y cartref a'r cylch chwarae er mwyn ei hannog i siarad ym mhob lleoliad. Gwnaeth rhieni Megan fideo ohoni mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y cartref, a chafodd y fideo ei rannu gyda staff y cylch chwarae. Ar y cychwyn, byddai un aelod staff yn gwylio'r fideos gyda Megan yn y cylch chwarae ac yn ei hannog i siarad amdanyn nhw. Yn raddol, cafodd Megan ei hannog i'w rhannu gydag oedolion a phlant eraill.

## Canlyniadau

O fewn tri mis, roedd Megan yn rhyngweithio'n hyderus gyda phawb yn y lleoliad cyn-ysgol.

# Y blynyddoedd cynnar – gwaith achos grŵp

## Cefndir

Roedd staff y feithrinfa yn poeni am ymddygiad a datblygiad rhai o'r plant. Roedd y rhieni wedi mynegi pryderon hefyd. Roedd enghreifftiau o'r ymddygiad a oedd yn peri pryder yn cynnwys:

- cnoi plant eraill
- strancio eithafol
- llyfu waliau.

Gofynnodd staff y feithrinfa i'r seicolegydd addysg ddarparu help a chyngor ar yr anawsterau hyn.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Penderfynodd y seicolegydd addysg ddefnyddio **cylchoedd ateb**, a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf yng Nghanada i helpu grwpiau o rieni/gofalwyr neu staff meithrinfeydd i weithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau. Penderfynwyd y byddai'r dull hwn o fudd i rieni/gofalwyr a staff.

Aeth y seicolegydd addysg ati i sefydlu ac arwain grŵp, gan sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda'r plant yn gallu cyfrannu. Trwy rannu gwybodaeth a phrofiad pawb, daethpwyd o hyd i atebion effeithiol.

### Canlyniadau

- Roedd y rhai a oedd yn rhan o'r sefyllfa'n teimlo eu bod nhw wedi'u grymuso i symud y sefyllfa yn ei blaen mewn ffordd gadarnhaol.
- Trwy gynnwys rhieni/gofalwyr a staff y feithrinfa, gallai'r un dulliau gael eu defnyddio gartref ac yn yr ysgol, gan sicrhau cysondeb i'r plant.
- Bu gwelliant yn ymddygiad y plant dan sylw.

## Y blynyddoedd cynnar – gwaith achos systemau ehangach

### Cefndir

Nododd y seicolegwyr addysg mewn un gwasanaeth penodol fod llawer o blant ifanc iawn yn cael eu hatgyfeirio iddynt oherwydd pryderon ynglŷn â'u lles emosiynol. Nodwyd bod gan y plant hyder gwael a hunan-barch isel a'u bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â sefyllfaoedd chwarae a chymdeithasol.

### Cyfraniad y seicolegydd addysg

Ar sail gwaith arloesol y rhwydwaith Cynorthwyydd Cymorth Dysgu Emosiynol (ELSA) penderfynwyd hyrwyddo defnyddio ELSA yn yr ALl. Aeth seicolegwyr addysg ati i hyfforddi staff cymorth allweddol ar draws yr ALl ar strategaethau i helpu plant ifanc i ddysgu i reoli eu hemosiynau a sut i greu a meithrin perthynas a chyfeillgarwch. Yna, cafodd y strategaethau hyn eu rhannu â rheolwyr a phenaethiaid lleoliadau blynyddoedd cynnar. Yna, cynigiwyd hyfforddiant i **gynorthwywyr addysgu** i'w ddefnyddio yn eu lleoliadau.

### Canlyniadau

Cafodd anghenion lles emosiynol y plant eu diwallu yn y lleoliadau blynyddoedd cynnar perthnasol gan staff cyfarwydd, yn hytrach na thrwy eu hatgyfeirio i rywle arall. O ganlyniad, cafodd anghenion y plant eu diwallu'n gyflymach a bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'r seicolegwyr addysg.

Yn ogystal, cynhaliodd y seicolegwyr addysg gynhadledd hyfforddi ELSA i staff o wasanaethau eraill ac ALlau.

# 3. Oedran cynradd (5–11 oed)



## Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn yr ystod oedran cynradd?

Fel arfer, mae gan bob ysgol gynradd seicolegydd addysg sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

Mae seicolegwyr addysg yn gweithio gyda dysgwyr oedran cynradd:

- mewn ysgolion
- yn eu cartrefi, gan gynnwys cartrefi maeth a gofal
- mewn lleoliadau y tu allan i'r sir
- mewn darpariaeth arbenigol
- *mewn* **Hwb amlasiantaethol** – canolfan lle mae amryw o wahanol weithwyr proffesiynol yn gweithio a lle gallant weithio'n agos gyda'i gilydd.

Mae'r gwaith y mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn cynnwys y canlynol.

- Ymgynghoriad – pan fo materion yn cael eu trafod er mwyn cael mwy o wybodaeth a darlun llawnach i ddeall a mynd i'r afael â phryderon.
- Asesiad – casglu gwybodaeth fanwl am gryfderau a gwendidau'r plentyn neu'r person ifanc. Gellir defnyddio amryw o dechnegau, gan gynnwys profion, dulliau sy'n canolbwyntio ar y person ac arsylwadau.
- Ymyrraeth – rhaglenni a gynlluniwyd i helpu'r plentyn neu'r person ifanc.
- Hyfforddiant – i helpu athrawon, staff cymorth ac eraill i wella eu hymarfer.
- Ymchwil – gwerthuso'r hyn sydd wedi bod yn digwydd i weld pa mor effeithiol ydyw.

## Oedran cynradd – gwaith achos unigol

### Cefndir

Derbyniodd y gwasanaeth seicoleg addysg atgyfeiriad ar gyfer Aled, sy'n chwech oed, a oedd wedi symud i'r ardal yn ddiweddar ac a oedd yn mynychu'r ysgol gynradd leol. Bu'r seicolegydd addysg yn gweithio gydag Aled, ei athrawon a'i rieni ar y lefel **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** yng *Nghod Ymarfer Anghenion Addysol Arbennig Cymru*.

Nodwyd bod Aled yn cael anhawster gyda rhai tasgau a gweithgareddau, a'i fod yn gallu bod yn drwsgwl.

Dywedodd y seicolegydd addysg wrth rieni Aled y dylen nhw drefnu iddo gael prawf clyw a golwg.

### Cyfraniad y seicolegydd addysg

Daethpwyd i'r casgliad bod gan Aled gyflwr llygaid dirywiol. Cydgysylltodd y seicolegydd addysg gyngor gan y gwasanaethau iechyd a chan **athro ymgynghorol ar gyfer plant â nam ar eu golwg** i ddatblygu ymateb graddedig i ddiwallu anghenion Aled yn yr ysgol.

Dros gyfnod o amser, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghorol yn yr ysgol rhwng y seicolegydd addysg, yr athro dosbarth, y **cydgysylltydd anghenion addysgol arbennig (SENCo)**, yr athro ymgynghorol (nam ar y golwg) a'r rhieni.

Ar ôl chwe mis, roedd anghenion Aled yn dod yn fwy dwys oherwydd natur dirywiol ei gyflwr, a theimlwyd bod angen iddo gael mynediad at adnoddau arbenigol tymor hir i ddiwallu ei anghenion yn ei ysgol prif ffrwd. Penderfynodd yr ALl gynnal asesiad statudol o AAA Aled.

Cyflwynodd y seicolegydd addysg ymagwedd gyfannol at gyflwr meddygol Aled a'r anawsterau gwybyddol a oedd yn effeithio ar ei addysg. Gan gasglu mwy o wybodaeth trwy asesiad uniongyrchol a gwybodaeth a gafwyd gan gydweithwyr eraill, gan gynnwys y rhai ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, paratôdd y seicolegydd addysg adroddiad seicolegol fel rhan o'r broses asesu statudol.

### Canlyniadau

Cwblhawyd **datganiad o AAA** a chafodd Aled gymorth arbenigol ychwanegol. Roedd hyn yn ei alluogi i barhau i fynychu ei ysgol gynradd prif ffrwd. Parhaodd y seicolegydd addysg a gweithwyr proffesiynol eraill i adolygu cynnydd Aled yn ôl y gofyn.

## Oedran cynradd – gwaith achos grŵp

### Cefndir

Gofynnodd y cynorthwywyr addysgu mewn ysgol gynradd i'r seicolegydd addysg am gyngor ynglŷn â'r ffordd orau o helpu dysgwyr a oedd yn cael anhawster mawr gyda gwaith darllen a rhif. Roedd y dysgwyr hyn yn cael problemau o ran dysgu a chofio'r wybodaeth sylfaenol oedd ei hangen arnynt, er enghraifft:

- patrymau ffonig sylfaenol
- geiriau cyffredin
- bondiau rhif.

Roedd anawsterau yn y meysydd hyn yn golygu bod cynnydd araf iawn yn cael ei wneud gyda gwaith darllen a rhif.

### Cyfraniad y seicolegydd addysg

Awgrymodd seicolegydd addysg yr ysgol efallai y byddai **addysgu manwl** yn helpu gyda sgiliau hanfodol megis cofio synau ffonig cychwynnol a gallu darllen geiriau cyffredin. Gallai addysgu manwl hefyd helpu gyda dysgu sgiliau rhif sylfaenol megis adio a thynnu. Darparodd y seicolegydd addysg hyfforddiant i'r cynorthwywyr addysgu a oedd yn cyflwyno'r rhaglen.

### Canlyniadau

Bu'r hyfforddiant yn llwyddiannus iawn. Roedd y rhaglenni addysgu manwl a roddwyd ar waith yn effeithiol iawn. Cafodd y canlyniadau hyn eu rhannu yng nghyfarfod **yr ysgolion clwstwr**, a oedd yn cynnwys yr ysgol uwchradd, yr ysgolion cynradd lleol sy'n ei bwydo a chydweithwyr eraill ledled yr ALl. Gwnaeth ysgolion eraill gais am yr hyfforddiant, ac aeth y gwasanaeth seicoleg addysg ati i'w ddarparu.

# Oedran cynradd – gwaith achos systemau ehangach

## Cefndir

Roedd yr ALl yn poeni bod nifer fach o blant ifanc yn dangos ymddygiadau problemus sy’n gysylltiedig ag **anhwylder ymlyniad**. Oherwydd eu profiadau trawmatig yn y blynyddoedd cynnar, nid oedd y dysgwyr hyn wedi gallu ffurfio bondiau emosiynol gyda’u gofalwyr. Roedd yr ymddygiadau problemus yn cynnwys:

- ddim yn hoffi rhywun yn dangos anwyldeb corfforol tuag atynt
- eisiau teimlo mai nhw sy’n rheoli ac osgoi teimlo’n ddiymadferth
- anufuddhau, herio pobl ac ymddygiad dadleugar
- dicter sy’n cael ei fynegi drwy strancio
- anhawster wrth geisio dangos gofal go iawn dros eraill
- dim syniad clir o’r hyn sy’n iawn a’r hyn sy’n anghywir.

Roedd y dysgwyr hyn mewn gwahanol ysgolion cynradd prif ffrwd ac roedd gan bob un gynorthwyydd addysgu yn gweithio gyda nhw.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Penderfynodd y seicolegwyr addysg yn yr ALl gynnig hyfforddiant ar anhwylder ymlyniad i’r cynorthwywyr addysgu a oedd yn gweithio gyda’r dysgwyr hyn. Roedd y cynorthwywyr addysgu a gymerodd ran yn dod o amryw o ysgolion yn yr ALl.

Cafodd egwyddorion y **theori ymlyniad** eu hesbonio fel ffordd o wneud synnwyr o’r ymddygiadau a welwyd yn yr ysgol, ac i helpu i gynllunio ffyrdd o gefnogi’r dysgwyr. Roedd hi’n bwysig hefyd fod aelodau staff eraill yn yr ysgol yn deall y problemau ac y byddent yn gallu cefnogi’r cynorthwywyr addysgu a’r dysgwyr. Yn ogystal, gwahoddwyd aelodau allweddol o **dimau arwain** yr ysgolion i ddiwrnod hyfforddiant ymarferol ar ddeall a diwallu anghenion ymlyniad dysgwyr mewn ysgolion.

Yn ystod ail gyfnod y prosiect, cynigiwyd cyfle i gynorthwywyr addysgu gymryd rhan mewn sawl sesiwn grŵp i gyfnewid syniadau a chynnig cymorth i’w gilydd. Cafodd y sesiynau hyn eu harwain a’u hwyluso gan **uwch seicolegydd addysg** o’r gwasanaeth seicoleg addysg.

## Canlyniadau

Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y prosiect ymlyniad a ddisgrifir uchod, aeth y seicolegwyr addysg ati i gyfweld y cynorthwywyr addysgu a oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect. Arweiniodd canlyniadau’r prosiect ymchwil hwn at newidiadau yn yr hyfforddiant a gynhaliwyd yn yr ail flwyddyn. Er enghraifft, dysgodd y seicolegwyr addysg fod cynorthwywyr addysgu yn gwerthfawrogi’r sesiynau goruchwylio grŵp am y cymorth emosiynol a ddarparwyd. Cafodd y gwaith ymchwil hwn ei hysgrifennu gan y tîm a’i gyflwyno i gyfnodolyn seicoleg addysg.

# 4. Oedran uwchradd (11–18 oed)



## Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn yr ystod oedran uwchradd?

Fel arfer, mae gan bob ysgol uwchradd seicolegydd addysg sy'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

Mae'r seicolegydd addysg yn gweithio yn y llefydd canlynol hefyd:

- ysgolion a cholegau
- cartrefi, gan gynnwys cartrefi maeth a gofal
- lleoliadau y tu allan i'r sir
- darpariaeth arbenigol
- canolfannau ieuenctid a chymunedol
- hwb amlasiantaethol.

I lawer o ddysgwyr, mae cyfnod yr arddegau yn gallu bod yn her fawr. Mae rhai o'r materion allweddol mae seicolegwyr addysg yn gorfod ymdrin â nhw yn rheolaidd yn cynnwys:

- perthynas gydag eraill
- pwysau gan gyfoedion a bwlio
- y glasoed a blaenlencyndod
- lles a gwydnwch
- camddefnyddio sylweddau
- defnyddio a chamddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- hunaniaeth rywiol
- pryderon iechyd meddwl
- ymddygiad troseddol
- dysgu a chyflawni.

Mae seicolegwyr addysg yn defnyddio'r dulliau canlynol yn rheolaidd:

- **cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion**
- theori lluniad personol
- ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar atebion, megis cylchoedd ateb
- therapi byr yn canolbwyntio ar atebion
- **ymwybyddiaeth ofalgar**
- gwaith digwyddiadau tyngedfennol.

# Oedran uwchradd – gwaith achos unigol

## Cefndir

Roedd Gareth yn adnabyddus i'r gwasanaeth seicoleg addysg ac fe'i gwelwyd yn gyntaf pan oedd ym Mlwyddyn 7. Codwyd pryderon ynglŷn â'i lefelau presenoldeb gwael, ei ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol a'r ffaith ei fod yn cymryd cyffuriau. Roedd Gareth yn cael anawsterau hefyd wrth geisio mynegi ei emosiynau mewn ffordd briodol.

Roedd ymddygiad Gareth wedi arwain at gyfnodau o waharddiad o'r ysgol, yn ogystal ag amserlen wedi'i haddasu a threulio rhywfaint o amser yn yr ystafell ynysu. Roedd yr heddlu a'r tîm troseddau ieuenctid yn ymwybodol o Gareth.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Roedd cyfraniad y seicolegydd addysg yn cynnwys ymgynghori â staff yr ysgol, arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a thrafod gyda Gareth a'i rieni. O ganlyniad i'r cyfraniad hwn, cafwyd gwell dealltwriaeth o anghenion Gareth. Roedd y seicolegydd addysg yn cydnabod bod gan Gareth gryfderau arbennig y gellid adeiladu arnynt i wella ei ymddygiad. Roedd Gareth yn gallu gwneud yn dda yn academaidd, ond roedd cynnydd yn araf oherwydd ei ymddygiad heriol. Roedd Gareth yn athletwr dawnus ac roedd ei lefel presenoldeb wedi bod yn well ym Mlwyddyn 10. Cytunwyd bod angen **cynllun ymddygiad unigol (IBP)** ar Gareth gyda thargedau wedi'u gosod mewn ymgynghoriad â Gareth, a bod angen asesiad risg.

Cafodd Gareth gynllun ymddygiad unigol a oedd yn canolbwyntio ar wella ei gryfderau. Yn ogystal, cafodd gwricwlwm wedi'i addasu a chyfleoedd i ddatblygu ei fedrau chwaraeon gyda chymorth Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid. Gwnaed atgyfeiriadau am **allgymorth** gan yr **uned cyfeirio disgyblion (PRU)** ac i'r **tîm iechyd meddwl sylfaenol (PMHT)**. Roedd yna gysylltiad agos rhwng yr holl wasanaethau a oedd yn gweithio gyda Gareth a'i rieni er mwyn sicrhau dulliau cyson o reoli ei ymddygiad yn y cartref ac yn yr ysgol.

## Canlyniadau

Bu gwelliant graddol yn ymddygiad Gareth o ganlyniad i'r cymorth a gynigiwyd, a bu gostyngiad yn nifer yr achosion o ymddygiad aflonyddgar. Nododd ei rieni fod ei ymddygiad wedi gwella gartref hefyd.

# Oedran uwchradd – gwaith grŵp

## Cefndir

Roedd grŵp o ddysgwyr Blwyddyn 7 yn peri pryder gan fod eu sgiliau llythrennedd gwael iawn yn ei gwneud hi'n anodd iddynt gael mynediad at y cwricwlwm. Arweiniodd hyn at hunan-barch isel a phroblemau ymddygiad a oedd yn achosi tarfu yn yr ystafell ddosbarth. Nodwyd bod rhai o'r dysgwyr Blwyddyn 11 yn cael anawsterau gyda pherthnasoedd cymdeithasol a bod ganddynt hunan-barch isel.

Penderfynwyd mynd i'r afael â mater sgiliau llythrennedd gwael ym Mlwyddyn 7 trwy gynnwys y dysgwyr mewn prosiect sy'n defnyddio'r cynllun 'Toe-By-Toe'. Mae'r cynllun yn hyfforddi 'hyfforddwyr' i ddefnyddio'r rhaglen gyda dysgwyr eraill, a gofynnwyd i rai dysgwyr Blwyddyn 11 a hoffent gymryd rhan yn y prosiect. Y nod oedd gwella perthnasoedd cymdeithasol a hunan-barch pawb oedd yn rhan o'r prosiect. Cytunwyd y byddai 10 o ddysgwyr Blwyddyn 7 a 10 o ddysgwyr Blwyddyn 11 yn cymryd rhan yn y prosiect, a fyddai'n para wyth wythnos.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Yn gyntaf, ymgynghorodd seicolegydd addysg yr ysgol â phob aelod staff oedd yn adnabod y dysgwyr, yn ogystal â rhieni'r dysgwyr i gael eu caniatâd i'w plant gymryd rhan. Roedd rhaid i bob dysgwr roi eu caniatâd nhw hefyd. Aseswyd y dysgwyr Blwyddyn 7 i bennu eu hoedrannau darllen, a chafodd pob un eu paru â dysgwr Blwyddyn 11. Cafodd yr 'hyfforddwyr' gyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r cynllun 'Toe By Toe'. Yn ogystal, dangosodd y seicolegydd addysg i'r Cydgysylltydd AAA a dau o **gynorthwywyr cymorth dysgu (LSA)** yr ysgol sut i ddefnyddio'r cynllun gan y byddent yn cefnogi a monitro'r dysgwyr bob dydd. Cytunwyd y byddai'r sesiynau'n cael eu cynnal bob amser cinio am gyfnod o 20 munud.

Cytunwyd hefyd y byddai'r seicolegydd addysg yn ymweld â'r ysgol bob amser cinio dydd Gwener i fonitro'r prosiect a chynnig cymorth. Ar ddiwedd y prosiect, cafodd sgiliau darllen y dysgwyr Blwyddyn 7 eu hailasesu.

## Canlyniadau

Cafodd tri aelod staff a 10 o ddysgwyr Blwyddyn 11 eu hyfforddi i ddefnyddio 'Toe by Toe'. Bu gwelliant yn lefelau llythrennedd y dysgwyr Blwyddyn 7 ac roeddent yn gallu cyrchu'r cwricwlwm yn haws. O ganlyniad, cafwyd gwelliant cyffredinol yn eu hymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a nododd y rhan fwyaf o'r grŵp eu bod nhw'n teimlo'n hapusach yn yr ysgol. Nododd y dysgwyr Blwyddyn 11 eu bod nhw wedi mwynhau helpu'r dysgwyr iau a'u bod nhw'n teimlo'n fwy hyderus ar y cyfan. Cadarnhaodd y staff addysgu fod y ddau grŵp yn ymddangos yn hapusach yn yr ysgol.

Nododd y Cydgysylltydd AAA yr hoffai hi i'r cynllun gael ei ymestyn i gynnwys mwy o ddysgwyr gan fod yna fanteision i'r ddau grŵp o ddysgwyr.

# Oedran uwchradd – gwaith achos systemau ehangach

## Cefndir

Nodwyd bod nifer fawr o atgyfeiriadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag **anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (BESD)** sylweddol. Arweiniodd hyn at amryw o waharddiadau o ysgolion a galw mawr am gyfraniad gan y gwasanaeth seicoleg addysg. Er bod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn ymddwyn yn gymharol dda yn yr ysgol ac yn dilyn rheolau'r ysgol, roedd nifer fach o'r dysgwyr yn dangos ymddygiad heriol yn aml. Roedd ymddygiad y nifer bach hwn o ddysgwyr yn anodd ei reoli a'i newid. Y dysgwyr hyn oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaharddiadau yn y sector uwchradd.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Aeth y gwasanaeth seicoleg addysg ati i ddylunio a chynnal archwiliad o broblemau ymddygiad mewn ysgolion. O ganlyniad i hyn, sefydlwyd grŵp BESD ysgol i ysgol a gadeiriwyd gan uwch seicolegydd addysg. Lluniwyd cynllun gweithredu a oedd yn cynnwys rhaglen hyfforddi staff. Y nod oedd gwella gallu'r ysgolion uwchradd i gefnogi dysgwyr heriol. Aeth y gwasanaeth seicoleg addysg ati i gynhyrchu DVD a llyfr gwaith i athrawon. Cafodd y sesiwn hyfforddi ei darparu gan yr uwch seicolegydd addysg yn y lle cyntaf, ond roedd y DVD a'r llyfr gwaith yn ei gwneud hi'n bosibl i'r ysgolion gynnal eu hyfforddiant eu hunain. Roedd hyn yn golygu y gellid hyfforddi athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu, cynorthwywyr addysgu, goruchwylwyr hanner dydd, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr.

Yn dilyn y cynllun peilot, cyflwynwyd y rhaglen i bob ysgol uwchradd.

## Canlyniadau

Bu gostyngiad amlwg yn nifer y gwaharddiadau a llai o atgyfeiriadau am allgymorth gan uned cyfeirio disgyblion. Bu gostyngiad hefyd yn nifer y dysgwyr a atgyfeiriwyd i'r ALl am asesiad statudol. Bu gostyngiad yn nifer y dysgwyr a oedd angen symudiadau wedi'u rheoli, ac roedd y symudiadau a gwblhawyd yn fwy llwyddiannus.

# 5. Ystod oedran ôl-16



## Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn yr ystod oedran ôl-16?

Yn aml, mae o leiaf un seicolegydd addysg yn ymweld â darpariaeth ôl-16 yn yr ALl.

Mae seicolegwyr addysg ôl-16 yn gweithio yn y llefydd canlynol, yn ogystal â'r llefydd hynny a nodir yn y cyflwyniad:

- colegau a phrifysgolion
- darpariaethau ieuenctid a chymunedol
- hwb amlasiantaethol.

Mae sawl her yn wynebu pobl ifanc wrth iddyn nhw baratoi at ddod yn oedolion ifanc. Mae rhai o'r materion allweddol mae seicolegwyr addysg yn gorfod ymdrin â nhw yn rheolaidd yn y grŵp oedran ôl-16 yn cynnwys:

- trefniadau pontio e.e. o'r ysgol i'r coleg
- asesiadau/cyngor/arweiniad ynghylch lleoliadau ôl-16 arbenigol
- datblygiad gyrfa
- cynllunio/cymorth bywyd
- hunaniaeth rywiol
- y glasoed a blaenlencyndod
- perthnasoedd
- beichiogrwydd
- pwysau gan gyfoedion a bwlio
- lles a gwydnwch
- pryderon iechyd meddwl
- camddefnyddio sylweddau
- hunan-niwed a hunanladdiad
- defnyddio a chamddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- troseddau ieuenctid.

Gyda'r ystod oedran ôl-16, gall seicolegwyr addysg ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion
- **theori lluniad personol**
- **ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar atebion, megis cylchoedd ateb**
- **therapi byr yn canolbwyntio ar atebion**
- ymwybyddiaeth ofalgar

# Ôl-16 – gwaith achos unigol

## Cefndir

Mae Sian yn dechrau ym Mlwyddyn 12 ac mae'r gwasanaeth seicoleg addysg wedi bod yn ymwybodol ohoni ers ei blynyddoedd cynnar gan ei bod hi wedi'i diagnosio gyda **syndrom Down**. Mae gan Sian ddatganiad AAA a chynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae hi wastad wedi mynychu ysgolion prif ffrwd. Mae ei lefelau darllen a mathemateg o leiaf wyth mlynedd yn is na'r hyn a ddisgwylir gan rywun o'i grŵp oedran. Fodd bynnag, mae ei sgiliau celf a drama o safon dda ac mae penderfynoldeb ac ewyllys gref Sian wedi arwain at gymwysterau yn y pynciau hyn. Mae Sian eisiau aros yn ei hysgol ym Mlwyddyn 12.

Mae gan Sian berthynas wych gyda phawb arall yn ei dosbarth. Mae gan rai o'i ffrindiau gariadon ac mae Sian eisiau cariad hefyd. Mae Sian yn sensitif iawn ac mae hi wedi cael siom gan fod un o'i ffrindiau agos eisiau treulio amser gyda'i chariad yn hytrach na gyda hi. Yn ddiweddar, aeth Sian i fyny at fachgen mae hi'n ei hoffi ym Mlwyddyn 11 a cheisio ei gofleidio. Mae hi hefyd wedi bod yn cysylltu ag ef ar y cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd sydd wedi peri pryder iddo ef a'i rieni; nid yw Sian yn ymwybodol bod ei negeseuon yn amhriodol.

Mae rhieni Sian yn ystyried sut i reoli ei hymwybyddiaeth newydd o flaenlencyndod a sut i'w helpu hi i ddysgu sut i ddatblygu perthynas briodol gyda bechgyn mae hi'n eu hoffi.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Cafodd staff chweched dosbarth a fyddai'n gweithio gyda Sian eu cefnogi gan y seicolegydd addysg a'r nyrs arbenigol syndrom Down i helpu i ddiwallu anghenion Sian. Hyfforddodd y seicolegydd addysg staff yr ysgol yn y defnydd o gylchoedd ateb i helpu i ddatrys problemau wrth iddyn nhw godi.

Edrychodd y seicolegydd addysg, y Cydgysylltydd AAA a phennaeth blwyddyn Sian ar ei hamserlen i weld pa gymorth fyddai ei angen i sicrhau pontio esmwyth o'r ddarpariaeth uwchradd prif ffrwd i'r ddarpariaeth chweched dosbarth. Cafodd cwricwlwm Sian ei addasu a'i wahaniaethu fel ei fod yn addas i'w dulliau dysgu ac i'w helpu i gyrraedd ei photensial. Gwnaeth y seicolegydd addysg gyfraniad mawr at sefydlu cynllun pontio ar gyfer y symud i'r ddarpariaeth chweched dosbarth.

Datblygodd y seicolegydd addysg a'r Cydgysylltydd AAA gysylltiadau i staff gyda staff yr ysgol arbennig leol, a gynigiodd gyngor a chymorth pellach ynghylch materion adnoddau, addasrwydd ac ymarferoldeb cyrsiau academaidd, cymwysterau ac arholiadau. Cafodd cymorth gan y tîm allgymorth ei drefnu trwy gyrsiau sgiliau sylfaenol.

Bu'r seicolegydd addysg, y cydgysylltydd AAA a **gweithiwr cymdeithasol y tîm anabledd** yn gweithio ar raglen i fynd i'r afael ag anghenion Sian mewn perthynas â blaenlencyndod, datblygu perthynas briodol â bechgyn mae hi'n eu hoffi a'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

## Canlyniadau

Arhosodd Sian yn ei darpariaeth chweched dosbarth a chyda'i theulu. Mae hi wedi ennill cymwysterau ar lefelau da, ac mae hi wedi symud ymlaen i gwrs celf a drama uwch mewn coleg addysg bellach (AB) lleol. Mae Sian wedi gwella ei hymwybyddiaeth o berthynas, cyfeillgarwch, y cyfryngau cymdeithasol a chadw ei hun yn ddiogel.

Mae staff yr ysgol yn deall yn well sut i gefnogi dysgwyr ôl-16 ag AAA. Mae cysylltiadau wedi'u ffurfio gyda gwasanaethau lleol eraill megis yr ysgol arbennig leol a gwasanaethau nyrsio'r ysgol.

# Ôl-16 – gwaith achos grŵp

## Cefndir

Roedd pedwar dysgwr Blwyddyn 12 yn mynychu chweched dosbarth lleol yn eu hysgol leol. Roedd y grŵp yn cynnwys dwy ferch a dau fachgen a oedd yn ffrindiau da. Roedd un ferch ac un bachgen mewn perthynas, ond daeth y berthynas honno i ben pan ddywedodd y bachgen arall fod y ferch wedi cysgu gydag ef pan oedd hi'n feddw mewn parti. Yn dilyn y digwyddiad hwn a thros amser, chwalodd y perthnasoedd i gyd. Dechreuodd y dysgwyr wneud niwed iddyn nhw'u hunain, a datblygodd hyn i'r fath raddau nes i dri o'r grŵp (y ddau fachgen ac un o'r merched) geisio lladd eu hunain.

Roedd staff yr ysgol a rhieni'r dysgwyr yn poeni'n fawr am y sefyllfa, a gofynnwyd am help i ymdrin â'r bobl ifanc. Cafodd y dysgwyr gynnig atgyfeiriadau i'r gwasanaeth seicoleg addysg ac i **Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**, a chytunodd pawb i wneud hyn.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Helpodd y seicolegydd addysg staff yr ysgol i ddeall **deinameg y grŵp** ac i ystyried pob dysgwr fel unigolyn ac i barchu cyfrinachedd. Derbyniodd staff yr ysgol hyfforddiant ar hunan-niwed a hunanladdiad a sut i reoli eu straen eu hunain wrth ddelio â'r sefyllfa. Cafodd cynlluniau ymyrraeth eu hamlinellu fel ffordd ymlaen i gefnogi'r dysgwyr dan sylw.

Aeth y seicolegydd addysg a staff CAMHS ati i gyfarfod â phob dysgwr a'u rhieni mewn cyfarfodydd ar wahân. Cafodd y seicolegydd addysg ganiatâd i drafod materion gyda staff CAMHS ac i rannu gwybodaeth briodol gyda staff yr ysgol.

Aeth y seicolegydd addysg a'r pennaeth chweched dosbarth a diogelu ar gyfer dysgwyr ôl-16 (yr oedd y dysgwyr wedi dweud eu bod yn ymddiried ynddo ac yn ei barchu) ati i gyfarfod â phob un o'r dysgwyr yn unigol a chyflawni gwaith **seicoleg gadarnhaol** a gwaith sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Ar ôl i'r problemau gael eu datrys, cynhaliodd y seicolegydd addysg gyfarfodydd dilynol gyda staff yr ysgol, y rhieni a'r dysgwyr i ddod â chyfraniad y seicolegydd addysg i ben.

## Canlyniadau

Derbyniodd staff hyfforddiant ar sut i reoli hunan-niwed a hunanladdiad, a nodwyd bod yr hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar ymarfer ledled yr ysgol.

Cafodd tri o'r dysgwyr dan sylw eu rhyddhau o CAMHS ac maen nhw wedi ailsefydlu perthnasoedd emosiynol iach gyda'i gilydd. Roedd y dysgwr arall yn dal i fod angen cymorth gan CAMHS ac roedd yn cael mewnbwn gan bob math o asiantaethau cymorth.

Safodd pob un o'r pedwar dysgwr eu harholiadau; gwnaeth tri ohonynt yn dda ond ni lwyddodd y llall i gael y graddau gofynnol. Fodd bynnag, gyda chymorth staff yr ysgol, mae wedi ystyried opsiynau eraill. Roedd rhieni'r dysgwyr yn hapus gyda'r cymorth a roddwyd a'r cynnydd roedd y pedwar dysgwr yn ei wneud.

# Ôl-16 – gwaith achos systemau ehangach

## Datblygu pecyn cymorth sgiliau bywyd i staff addysgu mewn Coleg AB

Cwblhawyd adolygiad mewnol yn y coleg AB i asesu sgiliau bywyd dysgwyr ag anghenion cymhleth. Roedd lefelau annibyniaeth y myfyrwyr yn isel iawn ac roedd staff yn ei chael hi'n anodd ymdopi gan eu bod nhw'n ansicr o'r ffordd orau o'u cefnogi. Ymgynghorwyd â'r seicolegydd addysg ôl-16 ac, mewn trafodaeth â'r staff, penderfynwyd dyfeisio pecyn cymorth sgiliau bywyd i staff ei ddefnyddio fel adnodd. Byddai hyn yn eu helpu i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc ag AAA fel y gallent gymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:

- siopa
- rheoli arian ar lefel syml
- teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus
- dweud yr amser
- geirfa gymdeithasol ddigonol a gallu adnabod geiriau megis 'perygl', 'stop', 'preifat' ac ati, er mwyn bod yn ddiogel yn y gymuned
- diogelwch ar y ffordd
- sgiliau coginio
- sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol.

## Cyfraniad y seicolegydd addysg

Cytunwyd y byddai gweithgor cymorth sgiliau bywyd yn cael ei sefydlu, ac y byddai'r seicolegydd addysg ôl-16 a'r pennaeth gwasanaethau cymorth i ddysgwyr yn arwain y grŵp. Cytunwyd ar gynllun gweithredu, ac un o'r meysydd allweddol y canolbwyntiwyd arnynt oedd hyfforddi staff ar sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth sgiliau bywyd.

Yn ogystal â'r pecyn cymorth, darparodd y seicolegydd addysg a'r pennaeth gwasanaethau cymorth i ddysgwyr hyfforddiant i staff y coleg AB ac aethant ati i gynhyrchu llyfr gwaith addysgu sgiliau bywyd.

## Canlyniadau

Mae'r pecyn cymorth a'r hyfforddiant wedi cael effaith ar bolisïau, gweithdrefnau ac arferion sgiliau bywyd yn y coleg. Mae 92% o'r myfyrwyr wedi nodi bod yr adnoddau yn y pecyn cymorth wedi bod yn ddefnyddiol iddynt wrth ddatblygu eu sgiliau bywyd. Mae coleg lleol arall wedi nodi yr hoffai gael mynediad at y pecyn cymorth a'r hyfforddiant ar gyfer staff y coleg.

Casglodd y seicolegydd addysg a'r pennaeth gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ddata **ansoddol** a **meintiol** ar y pecyn cymorth a'i effeithiolrwydd. Bydd papur ymchwil a gyhoeddir maes o law yn galluogi eraill i ddysgu mwy am y gwaith.

# 6. Awdurdod lleol a'r gymuned



## Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn yr ALl a'r gymuned?

### Awdurdod lleol

Yn aml, gofynnir i seicolegwyr addysg gyfrannu at:

- **paneli cymedroli** a phaneli gwneud penderfyniadau eraill
- **cynlluniau corfforaethol**
- adrodd i bwyllgorau craffu pan fo angen
- gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu polisi a darpariaeth AAA ar lefel strategol
- amrywiaeth o ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau strategol gan gynnwys:
  - cwblhau gwaith papur lleoliadau
  - darparu cyngor statudol
  - mynychu rhai adolygiadau blynyddol
  - datblygu meini prawf ar gyfer asesiadau a datganiadau statudol
  - penderfynu ar feini prawf mynediad ac ymadael ar gyfer darpariaeth
  - darparu tystiolaeth ar gyfer cyfryngu a thribiwnlysoedd
- cynghori ar rai derbyniadau i ysgolion
- cynghori ar faterion presenoldeb ac ymddygiad ar lefel strategol
- rheoli symudiadau lleoliadau ysgol i blant a phobl ifanc
- gwaith wedi'i dargedu gydag ysgolion sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen cymorth
- darparu hyfforddiant llythrennedd a rhifedd, e.e. ar gyfer cydgysylltwyr anghenion addysgol arbennig (SENCOs)
- rheoli a datblygu gwasanaethau cynghori pobl ifanc
- cynrychioli'r ALl mewn gwahanol fforymau
- hyfforddi ysgolion i sefydlu ymyriadau newydd e.e. **agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (ACEDd), chwarae cadarnhaol, cymorth cadarnhaol**, Cynorthwywr Cymorth Dysgu Emosiynol (ELSA)
- hyfforddiant i **athrawon newydd gymhwyso** (ANG) a chydgysylltwyr AAA: cynllunio drwy ganolbwyntio ar yr unigolyn
- gweithio gyda chynghorwyr herio ac eraill i hwyluso **gwelliannau mewn ysgolion**
- datblygu polisi ac ymarfer mewn amrywiaeth eang o feysydd, e.e. cam-drin domestig, strategaethau ysgolion a chanllawiau ar drawsrywedd i ysgolion
- goruchwylio **seicolegwyr cynorthwyol** sy'n gweithio yn yr ALl.

Fel rhan o'u gwaith yn yr ALl mae seicolegwyr addysg yn gweithio'n agos gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr ALl.

### Gwasanaethau cymdeithasol a diogelu

- Gweithio gyda theuluoedd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.
- Cefnogi timau gwaith cymdeithasol a'u gwaith achosion fel bo angen.
- Gweithio ar hyfforddiant **diogelu**.
- Gweithio gyda thimau anabledd plant a phobl ifanc.
- Gweithio i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Gweithio gyda gwasanaethau maethu a mabwysiadu i gefnogi plant a phobl ifanc.

## Beth mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yn y gymuned?

### Byrddau iechyd lleol

- Meithrin arferion ar y cyd â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- Gweithio ar faterion sy'n gysylltiedig â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
- Meithrin arferion ar y cyd yn ymwneud ag **anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), anhwylderau cyfathrebu, anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD) ac anhwylder obsesiynol cymhellol (OCD)**.
- Meithrin arferion ar y cyd â phartneriaethau rhieni.
- Meithrin arferion ar y cyd ag ymwelwyr iechyd.

### Gwasanaethau cymunedol

Mae seicolegwyr addysg yn darparu gwaith ymgynghori a hyfforddiant i amrywiaeth eang o wasanaethau cymunedol gan cynnwys:

- **Partneriaethau'r Trydydd Sector**
- **Prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf**
- Dechrau'n Deg
- Barnardo's
- gwasanaethau ymyriadau teuluol
- cymorth gwybodaeth i rieni/gofalwyr
- darparwyr cyn-ysgol
- yr heddlu a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Mae seicolegwyr addysg hefyd yn cefnogi cwrs hyfforddi sef **Cwrs Doethurol Caerdydd mewn Seicoleg Addysg**.

## Polisïau dan arweiniad Llywodraeth Cymru

Cyfraniad gan seicolegwyr addysg yma hefyd, er enghraifft:

- ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiaeth eang o bynciau. Byddai hyn yn cynnwys ymgynghoriadau ar fentrau newydd, llunio polisi a deddfwriaeth newydd
- cyfrannu at amrywiaeth eang o fentrau hyfforddi Llywodraeth Cymru
- gwneud cyfraniad mawr mewn prosiectau ymyrryd yn gynnar, e.e. Dechrau'n Deg a **Portage**.

## Ac yn olaf

Nod y ddogfen hon yw rhoi gwell dealltwriaeth o'r cyfraniad hanfodol mae seicolegwyr addysg yn ei wneud yng Nghymru. Mae gwaith seicolegwyr addysg yn amrywiol ac fel mae'r astudiaethau achos wedi dangos, gellir darparu cymorth mewn nifer o ffyrdd. Mae seicolegwyr addysg yn cyfrannu mewn gwahanol gamau yn y system addysg ar lefel unigol, grŵp a systemau. Fodd bynnag, y prif bwyslais bob amser yw gweithredu er lles y plentyn neu'r person ifanc.

Bydd y seicolegwyr addysg yn parhau i gyflawni swyddogaeth allweddol o dan y system newydd arfaethedig ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru. Fel rhan o Raglen Trawsnewid ADY mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn darparu fframwaith cyfreithiol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0–25 oed ag ADY. Bydd y system newydd yn helpu i sicrhau bod sgiliau a phrofiad seicolegwyr addysg yn canolbwyntio ar gefnogi ysgolion a dysgwyr, gan ganiatáu i anghenion gael eu pennu'n gynnar ac ymyriadau priodol gael eu darparu.

Byddwn yn ailedrych ar y canllaw hwn cyn gweithredu'r system ADY newydd ac yn disgrifio rôl seicolegwyr addysg yn glir.

# Geirfa



**Athro ymgynghorol** – athro a gyflogir gan yr ALl sydd â chymwysterau a phrofiad arbenigol ac sy'n gallu cynnig cyngor arbenigol mewn maes arbenigol. Gallai'r meysydd hyn gynnwys nam ar y golwg, nam ar y clyw neu anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

**Pwyllgorau ardal amddiffyn plant (ACPC)** – dylai ALlau sicrhau bod ACPC yn cwmpasu eu hardal sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o bob un o'r prif asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am helpu i amddiffyn plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

**Asesu/Asesiad** – y broses o gasglu a thrafod gwybodaeth o lawer o wahanol ffynonellau er mwyn datblygu dealltwriaeth ddofn o'r hyn mae plant a phobl ifanc yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud.

**Seicolegwyr cynorthwyol** – graddedigion seicoleg a gyflogir gan yr ALl i helpu seicolegwyr addysg. Mae seicolegwyr cynorthwyol yn ennill profiad cyn gwneud cais am le ar gwrs hyfforddi i hyfforddi fel seicolegwyr addysg. Fel seicolegwyr cynorthwyol, ni allant gyflawni'r holl waith a wneir gan seicolegwyr addysg.

Mae'r **Association of Child and Adolescent Mental Health (ACAMH)** yn cynnal ymchwil ac ymarfer amlddisgyblaethol ar faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl plant a'r glasoed.

**Cymdeithas y seicolegwyr addysg (AEP)** – y gymdeithas broffesiynol a'r undeb llafur ar gyfer seicolegwyr addysg. Mae'r rhan fwyaf o seicolegwyr addysg yn aelodau o'r AEP.

Mae **anhwylder ymlyniad** yn gallu datblygu pan nad oes cwlwm wedi datblygu rhwng y plentyn a'r rhiant/gofalwr am ryw reswm. Gall hyn arwain at broblemau ymddygiad yn y dyfodol, a bydd yn effeithio ar berthynas ag eraill.

Mae **theori ymlyniad** yn cynnig bod ymlyniad emosiynol a chorfforol cryf i o leiaf un rhiant/gofalwr yn hollbwysig ar gyfer datblygiad personol da.

Mae **anhwylder diffyg canolbwyntio (ADD)** yn golygu bod person yn dangos digon o symptomau diffyg canolbwyntio, ond nad yw'n orfywiog nac yn fyrbwyll.

**Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)** yw'r term am grŵp o symptomau ymddygiad sy'n cynnwys diffyg canolbwyntio, gorfywiogrwydd a byrbwylldra.

**Anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD)** yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio diffygion cymdeithasol ac anawsterau cyfathrebu, ymddygiadau a diddordebau ystrydebol neu ailadroddus, problemau synhwyraidd ac, mewn rhai achosion, oedi gwybyddol.

**Barnardo's Cymru** – elusen sy'n darparu ystod o wasanaethau ledled Cymru, gan weithio gyda phlant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau agored i niwed i'w helpu i greu dyfodol gwell.

**Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (BESD)** – yn aml, cyfeirir atynt fel anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (EBD). Mae'n cyfeirio at gyflwr lle mae ymatebion emosiynol a/neu ymddygiad unigolyn yn cael effaith andwyol ar gynnydd y plentyn hwnnw.

**Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS)** yw corff cynrychiadol seicoleg a seicolegwyr yn y DU, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a defnyddio seicoleg bur a chymhwysol.

Mae **cynghorwyr herio** yn gweithio gydag ysgolion unigol i ddarparu her a chymorth er mwyn helpu perfformiad yr ysgol o ran codi safonau.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)** – gwasanaeth y GIG sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau gyda'u lles emosiynol neu ymddygiadol.

Fel arfer, mae **plentyn/person ifanc** yn cyfeirio at y rhai 0–18 oed.

**Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPP)** – grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau plant a phobl ifanc mewn ardal ALl.

**Ysgolion clwstwr** – grŵp o ysgolion â diben cyffredin ac sy'n gweithio gyda'i gilydd i raddau. Gall clwstwr gynnwys ysgol uwchradd a'r holl ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, neu bob ysgol arbennig yn ardal yr ALl.

**Dulliau ymddygiad gwybyddol** – rhaglenni sy'n seiliedig ar theori ymddygiad gwybyddol (gweler CBT).

Mae **therapi ymddygiad gwybyddol (CBT)** yn canolbwyntio ar sut mae meddyliau, credoau ac agweddau yn effeithio ar deimladau ac ymddygiad. Mae'n addysgu sgiliau ymdopi ar gyfer mynd i'r afael â gwahanol broblemau. Mae'n cyfuno therapi gwybyddol (sy'n archwilio'r hyn rydych chi'n ei feddwl) a therapi ymddygiad (sy'n archwilio'r pethau rydych chi'n eu gwneud).

Mae **anhwylderau cyfathrebu** yn cynnwys problemau yn ymwneud â lleferydd, iaith a phrosesu clywedol. Gall anhwylderau cyfathrebu amrywio o ailadrodd synau syml megis atal dweud i analluedd llwyr i ddefnyddio lleferydd ac iaith i gyfathrebu.

**Consortia**, neu gonsortia rhanbarthol, yw'r cydweithrediad rhwng sawl ALl yn yr ardal honno sy'n eu galluogi i rannu arfer gorau, gwybodaeth a sgiliau, gwella cryfderau lleol a gwella capasiti. Y nod yw gwella addysg dysgwyr yng Nghymru.

**Ymgynghori/ymgynghoriad** – y broses o drafod rhywbeth gyda rhywun er mwyn cael cyngor neu glywed ei farn amdano, ac ystyried ei safbwyntiau fel rhan o'r darlun ehangach.

Mae **datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)** yn disgrifio'r gweithgareddau dysgu mae gweithwyr proffesiynol yn cymryd rhan ynddynt er mwyn datblygu a gwella eu sgiliau. Mae'n ofynnol i bob seicolegydd addysg gymryd rhan mewn gweithgareddau DPP.

**Cynllun corfforaethol** – pan fo'r ALl yn amlinellu'r blaenoriaethau ac i ba gyfeiriad y mae am i wasanaethau fynd. Mae'r cynllun yn cwmpasu amryw o flynyddoedd, a gofynnir i wahanol adrannau gyfrannu ato.

Mae **digwyddiad tyngedfennol** yn disgrifio digwyddiad sy'n achosi lefel o drallod a thrawma posibl i'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddo. Mae dysgwyr yn gweld marwolaeth sydyn dysgwr arall yn enghraifft o hyn.

**Y tîm anabledd**, neu'r tîm anabledd plant. Mae'r tîm, sydd fel arfer yn rhan o adran gwasanaethau cymdeithasol ALl, yn helpu plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd) y mae anableddau'n effeithio ar eu gofal cymdeithasol a'u haddysg.

**Syndrom Down** – cyflwr genetig sy'n achosi rhyw lefel o anabledd dysgu a nodweddion corfforol nodweddiadol.

**Early Bird Parenting** – rhaglen a ddyfeisiwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS) i helpu i hyrwyddo iechyd meddwl da mewn plant awtistig.

**Gwasanaethau cymorth y blynyddoedd cynnar** – ystod o wasanaethau a ddarperir gan yr ALl ac iechyd i helpu plant 0–5 oed a'u teuluoedd.

**Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (EBD)** – gweler BESD am ddiffiniad llawnach.

**Cynorthwyydd cymorth dysgu emosiynol (ELSA)** – cynorthwyydd addysgu sydd wedi'i hyfforddi i ddarparu cymorth sgiliau cymdeithasol ac emosiynol i blant.

Mae **addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)** yn cwmpasu pob math o amgylchiadau lle mae dysgwyr yn cael eu haddysgu y tu allan i leoliad ysgol, gan gynnwys y canlynol:

- unedau cyfeirio disgyblion
- darpariaeth 14–19 a llwybrau unigol
- darpariaeth sector gwirfoddol ac annibynnol
- addysg yn y cartref.

Mae EOTAS yn cyfeirio at addysg a ddarperir gan yr ALl ac, fel arfer, derbynnir nad yw'r term yn cynnwys addysg yn y cartref a ddarperir gan rieni/gofalwyr.

Mae **seicoleg addysg** yn golygu defnyddio theori, ymchwil a thechnegau seicolegol i helpu plant, pobl ifanc, eu teuluoedd ac ysgolion i hyrwyddo lles addysgol, emosiynol a chymdeithasol pobl ifanc.

Mae gan **seicolegydd addysg** radd mewn seicoleg a gradd ôl-raddedig mewn seicoleg addysg. Mae seicolegwyr addysg yn gweithio fel seicolegwyr cymhwysol, gan helpu plant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau mewn pob math o leoliadau.

**Gwasanaeth seicoleg addysg (EPS)** – mae gan bob ALl wasanaeth seicoleg addysg sy'n cynnwys tîm o seicolegwyr addysg dan arweiniad prif seicolegydd addysg.

**Anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol (ESBD)** (gweler BESD am ddiffiniad llawn).

**Teulu** – grŵp domestig sy'n cynnwys pobl sy'n gofalu am ei gilydd. Yn y ddogfen hon, mae'r term 'teulu' yn cwmpasu pob math o drefniadau teulu a gwarcheidiaeth, a gall gyfeirio hefyd at deuluoedd maeth, priodasau sifil, perthnasoedd un rhyw a llys-deuluoedd.

**Teuluoedd yn Gyntaf** yw menter Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid i ALlau i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae pob ALl wedi datblygu Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf sy'n amlinellu sut y byddant yn rhoi Teuluoedd yn Gyntaf ar waith yn lleol.

**Dechrau'n Deg** yw rhaglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair oed sy'n byw yn ardaloedd difreintiedig Cymru. Mae'n cynnwys pedair elfen graidd sy'n darparu gofal plant rhan-amser, gwell gwasanaethau ymwelwyr iechyd, cymorth i rieni a chymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae **ymateb graddedig** yn cyfeirio at ddull cam wrth gam o ddiwallu anghenion plentyn. Y cam cyntaf fyddai cynnal arsylwad/asesiad sylfaenol a rhoi rhaglenni ar waith i helpu'r plentyn i symud ymlaen i gymorth mwy dwys os na fydd ymyriadau cychwynnol yn arwain at gynnydd.

Mae **deinameg grŵp** yn cyfeirio at y ffordd mae grŵp o bobl yn ymddwyn a'r effaith mae ffactorau amgylcheddol, ffactorau personol a ffactorau arwain yn ei chael ar y grŵp.

Mae'r **Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC)** yn rheoleiddio amryw o grwpiau proffesiynol, gan gynnwys seicolegwyr addysg, gan sicrhau eu bod yn gwbl gymwys ac yn gweithio i safonau proffesiynol a moesegol. Rhaid i bob seicolegydd addysg gofrestru gyda'r HCPC er mwyn gweithio fel seicolegydd addysg.

**Nam ar y clyw** – pan fo gan y plentyn neu'r person ifanc broblemau gyda'i glyw a fydd yn achosi anawsterau ac yn cael effaith ar agweddau ar ei fywyd, gan gynnwys ei addysg.

Mae **ymagwedd gyfannol** at blant a phobl ifanc yn canolbwyntio ar ddiwallu holl anghenion bywyd y plentyn neu'r person ifanc: emosiynol, corfforol, perthynol, deallusol a chreadigol. Mae hyn yn annog pobl i edrych ar y plentyn yn ei gyfanrwydd.

Mae'r **cynllun ymddygiad unigol (IBP)** yn gynllun ymddygiad sydd wedi'i addasu'n arbennig i ddiwallu anghenion y plentyn unigol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'i anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

**Tîm arwain** – grŵp o weinyddwyr ac aelodau staff eraill sy'n gwneud penderfyniadau llywodraethu pwysig yn y sefydliad, e.e. ysgol a/neu'r rhai sy'n arwain a chydgysylltu mentrau gwella.

**Cynorthwyydd cymorth dysgu (LSA)** – gweler hefyd cynorthwyydd addysgu.

Mae **sgiliau bywyd** yn golygu sgiliau sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol er mwyn cyfrannu'n llawn at fywyd bob dydd.

**Awdurdod lleol (ALl)** yw'r ardal ddaearyddol a lywodraethir gan y cyngor lleol. Yng Nghymru, mae'r ALl yn gyngor unedol sy'n gyfrifol am bob math o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

Mae **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010** yn gyfraith sy'n gosod dyletswyddau cyfreithiol newydd ar fyrddau iechyd lleol ac ALlau ynghylch asesu a thrin plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl.

Mae **ymwybyddiaeth ofalgar** yn ffordd o hyfforddi'r meddwl i gymryd sylw o'r hyn sy'n digwydd wrth iddo ddigwydd, gydag agwedd o garedigrwydd a derbyniad a thrwy beidio â bod yn feirniadol. Mae'n helpu pobl i ymlacio a bod yn hapus.

Mae **paneli cymedroli** yn cefnogi penderfyniadau AAA ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Diben grŵp cymedroli yw sicrhau bod ALlau yn gwneud penderfyniadau teg.

Mae **amlasiantaethol** yn cyfeirio at amryw o asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i helpu a chefnogi'r plentyn neu'r person ifanc, ei deulu ac ysgolion.

**Hwb amlasiantaethol** – canolfan lle mae amryw o wahanol weithwyr proffesiynol yn gweithio a lle gallant weithio'n agos gyda'i gilydd.

Mae **niwroddatblygiad** yn cyfeirio at dwf a datblygiad yr ymennydd a'r system nerfol ganolog.

Mae **athro newydd gymhwyso (ANG)** wedi hyfforddi'n ddiweddar. Mae athro newydd gymhwyso yn dilyn rhaglen sefydlu yn ystod ei flwyddyn gyntaf o addysgu.

**Anhwylder obsesiynol cymhellol (OCD)** – anhwylder pryder lle mae pobl yn cael meddyliau, teimladau, syniadau a synwyriadau (obsesiynau) di-groeso, dro ar ôl tro, neu ymddygiadau sy'n eu cymell i wneud rhywbeth (gorfodaethau).

Mae **allgymorth** yn disgrifio gwasanaethau symudol a ddarperir i unrhyw gleientiaid na fyddent yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hynny fel arall.

Yn y ddogfen hon, mae **rhiant** yn cyfeirio at y person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros y plentyn/person ifanc. Y rhiant yw'r person hwn fel arfer, ond gall gynnwys perthnasau eraill megis neiniau a theidiau. Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yr ALl fyddai'n cyflawni'r rôl hon.

Mae angen cael **caniatâd rhiant** cyn y gall y seicolegydd addysg weld y plentyn neu'r person ifanc. Fodd bynnag, efallai y gall y person ifanc roi'r caniatâd hwnnw ei hun yn dibynnu ar ei oedran a lefel ei ddealltwriaeth.

Mae **grŵp cyfoedion** yn cyfeirio at ddysgwyr sydd o'r un oedran ac yn adnabod ei gilydd.

**Cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion (PCP)** – lle mae safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth gynllunio eu dyfodol. Yn aml, mae hyn yn golygu defnyddio dull datrys problemau. Mewn cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion, mae pobl yn cefnogi plant a phobl ifanc a'u gweledigaeth o'r hyn yr hoffent ei wneud.

Mae **theori lluniad personol (PCT)** yn esbonio sut mae unigolion yn creu lluniadau er mwyn deall y byd.

Mae **timau gofal iechyd sylfaenol (PMHT)** yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o wahanol gefndiroedd sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â phrofiad o weithio yn y gymuned i hyrwyddo iechyd a lles meddyliol cadarnhaol. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn cysylltu â lleoliadau cymunedol megis ysgolion a chanolfannau plant, a gallant roi cyngor a chymorth yn syth pan fydd anawsterau'n codi.

Mae'r **prif seicolegydd addysg (PEP)** yn arwain ac yn rheoli'r gwasanaeth seicoleg addysg. Mewn rhai ALlau, defnyddir gwahanol deitl swydd, e.e. seicolegydd arweiniol.

**Portage** – gwasanaeth addysgol sy'n ymweld â'r cartref ar gyfer teuluoedd a phlant cyn-ysgol ag anghenion addysgol arbennig.

**Chwarae cadarnhaol** – rhaglen gymorth i blant i'w helpu trwy weithgareddau chwarae strwythuredig. Ei nod yw eu helpu i fynegi a chyfathrebu eu teimladau, i deimlo'n dda amdanyn nhw'u hunain, i godi eu hunan-barch ac i wella eu sgiliau cymdeithasol mewn amgylchedd dibynadwy, diogel a chefnogol.

**Seicoleg gadarnhaol** yw'r astudiaeth wyddonol o'r cryfderau sy'n galluogi unigolion a chymunedau i ffynnu.

Mae **cymorth cadarnhaol** yn disgrifio cymorth sy'n canolbwyntio ar gryfderau unigol.

Uned **cyfeirio disgyblion (PRU)** – uned fach i ddysgwyr ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

**Seiciatrydd** – meddyg sy'n arbenigo mewn seiciatreg, sef diagnosio a thrin anhwylderau meddyliol. Mae gan seiciatryddion gymwysterau meddygol ac maent yn gallu rhoi meddyginiaeth i helpu cleifion.

**Data ansoddol** – data disgrifiadol fel arfer, felly mae'n anoddach i'w dadansoddi na data meintiol. Mae ymchwil ansoddol yn ddefnyddiol ar gyfer astudiaethau ar lefel unigol ac i bennu sut mae pobl yn meddwl neu'n teimlo. Defnyddir holiaduron yn aml.

**Data meintiol** – data y mae modd eu mesur a'u dadansoddi'n ystadegol, e.e. sgoriau profion.

**Diogelu** yw'r cam a gymerir i hyrwyddo lles plant a'u diogelu rhag niwed. Mae canllawiau a deddfwriaeth diogelu plant ac amddiffyn plant yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc. Mae diogelu'n golygu:

- amddiffyn plant rhag camdriniaeth a chamarfer
- atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plentyn
- sicrhau bod plant yn tyfu i fyny gyda darpariaeth gofal diogel ac effeithiol
- cymryd camau i alluogi plant a phobl ifanc i gael y canlyniadau gorau.

**Gweithredu gan yr Ysgol** yw'r camau a gymerir o fewn adnoddau'r ysgol i gefnogi dysgwyr ag AAA.

Mae **Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** yn cyfeirio at gymorth sy'n ychwanegol i'r adnoddau mae'r ysgol yn eu darparu.

Nod **gwella ysgolion** yw hyrwyddo effeithiolrwydd ysgolion o ran codi cyflawniad addysgol.

**Mudandod dethol** – anhwylder pryder lle mae person sy'n gallu siarad yn dewis peidio â gwneud hynny mewn sefyllfaoedd penodol neu i bobl benodol. Mewn sefyllfaoedd lle mae'r plentyn yn teimlo'n hyderus, bydd yn rhyngweithio'n iawn.

Mae gan **uwch seicolegydd addysg (SEP)** rôl gyfrifol yn y gwasanaeth seicoleg addysg ac mae'n dirprwyo dros y PEP yn ôl y gofyn.

Mae **agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (ACEDd)** yn gwricwlwm a ddyfeisiwyd i helpu ysgolion i wella ymddygiad emosiynol a chymdeithasol dysgwyr.

Mae **anghenion addysgol arbennig (AAA)** yn derm cyfreithiol. Mae'n disgrifio anghenion dysgwr sydd ag anhawster neu anabledd sy'n gwneud dysgu'n anoddach iddo nag i ddysgwyr eraill o'r un oedran.

Mae ***Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*** yn rhoi cyngor ymarferol i ALlau, ysgolion a gynhelir, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac eraill ar gyflawni eu dyletswyddau statudol i nodi, asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig dysgwyr.

**Cydgysylltydd anghenion addysgol arbennig (SENCo)** – athro sy'n goruchwylio gweithrediad polisi AAA yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae'r cydgysylltydd hwn yn:

- helpu i nodi dysgwyr ag AAA
- cydgysylltu darpariaeth
- cysylltu â rhieni/gofalwyr
- cysylltu â darparwyr eraill, asiantaethau allanol, seicolegwyr addysg
- sicrhau bod yr ysgol yn diweddaru cofnodion pob dysgwr ag AAA.

Mae **tîm gofal cymdeithasol** yn dîm o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac, yn aml, mae'r tîm yn cael ei arwain a'i gydgysylltu gan wasanaethau plant.

Mae **cylchoedd ateb** yn ffordd o ddatrys problem trwy ganiatáu i'r rhai mewn grŵp rannu syniadau a chynnig atebion.

Mae **therapi byr yn canolbwyntio ar atebion** yn ddull sy'n seiliedig ar ddod o hyd i atebion, ac mae'n cynnwys dim ond tri i bum sesiwn fel arfer.

Mae **asesiad statudol** yn asesiad amlddisgyblaethol y gofynnir amdano pan fo plentyn neu berson ifanc wedi methu â gwneud cynnydd digonol er gwaethaf y cymorth a roddir yn y cyfnodau Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yng *Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*.

Mae **cynorthwywyr addysgu** yn cefnogi athrawon ac yn helpu dysgwyr gyda'u datblygiad addysgol a chymdeithasol, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Weithiau, defnyddir y termau cynorthwyydd ystafell ddosbarth neu gynorthwyydd cymorth dysgu.

Mae'r **Trydydd Sector** yn cynnwys gwasanaethau anstatudol. Mae'r rhain yn cynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau cydfuddiannol.

**Seicolegwyr addysg dan hyfforddiant (TEPs)** – myfyrwyr ar y Cwrs Doethurol mewn Seicoleg Addysg (DEdPsy). Mae'r cwrs yn para tair blynedd ac, yn ystod yr amser hwnnw, mae TEPs yn gwneud tri lleoliad gyda seicolegwyr addysg ALl, er mwyn ennill profiad.

**Nam ar y golwg** – pan fo gan y plentyn neu'r person ifanc broblemau gyda'i olwg a fydd yn achosi anawsterau ac yn cael effaith ar agweddau ar ei fywyd, gan gynnwys ei addysg.

**Llywodraeth Cymru** – Llywodraeth ddatganoledig Cymru sydd â chyfrifoldebau sy'n cynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol a iechyd.

Mae'r tîm **troseddwyr ifanc (YOT)** yn dîm amlasiantaethol a gydgysylltir gan ALl ac sy'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n ymdrin â throseddwyr ifanc ac yn ceisio atal ieuenctid rhag aildroseddu a chael eu rhoi mewn canolfannau cadw.